# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 3**

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

**PENNOD 4**

GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADEILADAU RHESTREDIG

*Hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan awdurdodau cynllunio*

PROSPECTIVE

**125 Amrywio hysbysiad gorfodi a thynnu hysbysiad gorfodi yn ôl**

(1) Pan fo awdurdod cynllunio wedi dyroddi hysbysiad gorfodi, caiff—

(a) tynnu'r hysbysiad yn ôl;

(b) hepgor neu lacio unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad, ac yn benodol estyn y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo.

(2) Caiff yr awdurdod arfer y pwerau yn is-adran (1) pa un a yw'r hysbysiad wedi cymryd effaith ai peidio.

(3) Nid yw tynnu hysbysiad gorfodi yn ôl yn atal yr awdurdod cynllunio rhag dyroddi hysbysiad gorfodi arall.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan oedd yr awdurdod cynllunio wedi cyflwyno copïau o'r hysbysiad gorfodi o dan adran 124(4) cyn arfer y pwerau yn is-adran (1).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 125 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(5) Yn union ar ôl arfer unrhyw un o'r pwerau hynny, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad ei fod wedi gwneud hynny i bob person y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddo (neu y byddai copi o'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno iddo pe bai'n cael ei ailddyroddi).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 125 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 125 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.